| Gofyniad Allweddol | Ffactor | Egwyddor Dylunio | Dangosyddion | Critigol | 0 (Coch) | 1 (Melyn) | 2 (Gwyrdd) | Sgôr | Sylwadau | Awgrymiadau ar gyfer gwella | Sgôr Newydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cydlyniad | Cysylltiadau | Dylai beicwyr allu ymuno a symud yn rhwydd a diogel ar hyd gwahanol rannau o'r un llwybr teithio a rhwng gwahanol lwybrau teithio ar y rhwydwaith. | 1. Gallu ymuno â/ gadael y llwybr teithio yn rhwydd a diogel; ystyried troi i'r dde a'r chwith | | Ni all beicwyr gysylltu â lwybrau teithio eraill heb ddod oddi ar eu beic | Gall beicwyr gysylltu â llwybrau teithio eraill gydag ychydig o ymyrraeth â'u siwrnai | Darparwyd cysylltiadau penodedig â llwybrau eraill ar gyfer beicwyr, heb ymyrraeth â'u siwrnai | | | | |
| | Dilyniant a Dangos y Ffordd | Dylai llwybrau teithio fod yn gyfan heb fylchau yn y ddarpariaeth. Ni ddylid gosod arwyddion 'Diwedd y llwybr teithio' - dylid dangos i feicwyr ble mae'r llwybr teithio yn parhau. Ni ddylai beicwyr gael eu 'gadael', yn enwedig ar gyffyrdd lle mae'n bosibl y bydd angen darpariaeth i sicrhau symudiadau croesi diogel. | 2. Darparu ar gyfer beicwyr ar hyd y llwybr teithio | | Beicwyr wedi'u 'gadael' ar bwyntiau ar hyd y llwybr heb ddim i ddangos yn glir sut i barhau â'r siwrnai. | Mae'r llwybr teithio wedi'i ffurfio o rannau ar wahân, ond mae beicwyr yn gallu deall sut i symud rhyngddynt, yn cynnwys drwy gyffyrdd. | Darparwyd llwybr teithio di-dor ar gyfer beicwyr, yn cynnwys drwy gyffyrdd. | | | | |
| | Dwysedd y rhwydwaith | Dylai rhwydweithiau beicio ddarparu rhwyllwaith (neu grid) o lwybrau teithio ar draws y dref neu'r ddinas. Dwysedd y rhwydwaith yw'r pellter rhwng y llwybrau teithio sy'n ffurfio patrwm y grid. Y nod terfynol yw sicrhau rhwydwaith â lled | 3. Dwysedd llwybrau teithio wedi'i seilio ar led y rhwyllwaith h.y. pellteroedd rhwng prif lwybrau a llwybrau eilaidd o fewn y rhwydwaith | | Y llwybr teithio yn cyfrannu at ddwysedd rhwydwaith >1000m o led | Y llwybr teithio yn cyfrannu at ddwysedd rhwydwaith 250 - 1000m o led | Y llwybr teithio yn cyfrannu at ddwysedd rhwydwaith <250m o led | | | | |
| | Pellter | Dylai llwybrau teithio ddilyn yr opsiwn byrraf sydd ar gael a bod mor agos â phosibl i'r pellter unionsyth. | 4. Cyfrifir Ffactor Gwyro y llwybr teithio drwy rannu'r pellter gwirioneddol ar hyd y llwybr â'r pellter unionsyth, neu'r pellter byrraf ar ffordd arall. | | Ffactor gwyro oddi wrth y llwybr unionsyth neu'r pellter byrraf ar ffordd arall >1.4 | Ffactor gwyro oddi wrth y llwybr unionsyth neu'r pellter byrraf ar ffordd arall 1.2 – 1.4 | Ffactor gwyro oddi wrth y llwybr unionsyth neu'r pellter byrraf ar ffordd arall <1.2 | | | | |
| | Amser: Amlder yr angen i stopio neu ildio | Dylid lleihau'r nifer o weithiau y mae'r beiciwr yn gorfod stopio neu'n colli hawl tramwy ar lwybr teithio. Mae hyn yn cynnwys stopio ac ildio wrth gyffyrdd neu groesfannau, rhwystrau beiciau modur, parthau i gerddwyr yn unig etc. | 5. Amlder stopio ac ildio | | Y nifer o weithiau y mae'r beiciwr yn stopio neu'n ildio ar y llwybr teithio yn fwy na 4 y km | Y nifer o weithiau y mae'r beiciwr yn stopio neu'n ildio ar y llwybr teithio rhwng 2 a 4 y km | Y nifer o weithiau y mae'r beiciwr yn stopio neu'n ildio ar y llwybr teithio yn llai na 2 y km | | | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uniongyrchedd | Amser: Oedi wrth gyffyrdd | Dylid lleihau hyd yr oedi a achosir gan gyffyrdd. Mae hyn yn cynnwys asesu effaith croesfannau un cam neu ragor, cyfnodau goleuadau traffig, croesfannau twcan etc. | 6. Oedi wrth gyffyrdd | | Yr oedi wrth gyffyrdd i feicwyr yn fwy nag ar gyfer cerbydau modur | Yr oedi wrth gyffyrdd i feicwyr yn debyg i'r oedi ar gyfer cerbydau modur | Mae'r oedi'n llai nag ar gyfer cerbydau modur neu nid yw'n ofynnol i feicwyr stopio wrth gyffyrdd (e.e. lôn osgoi wrth oleuadau traffig) | | | | |
| | Amser: Oedi ar lwybrau cyswllt | Hyd yr oedi o ganlyniad i fethu ag osgoi traffig sy'n symud yn araf. | 7. Y gallu i gynnal eu cyflymder ar lwybrau cyswllt | | Mae beicwyr yn teithio ar gyflymder y cerbyd mwyaf araf (yn cynnwys beic) | Fel arfer gall beicwyr basio traffig araf a beicwyr eraill | Gall beicwyr ddewis cyflymder priodol bob amser | | | | |
| | Graddiannau | Ni ddylai llwybrau teithio redeg ar hyd graddiannau serth os oes modd. Mae rhannau sy'n rhedeg i fyny yn ychwanegu at amser, ymdrech ac anghysur. Lle ceir graddiannau serth, dylid cynllunio'r llwybrau teithio i leihau'r graddiant dringo a chaniatáu i ddefnyddwyr fynd yn eu blaen ar yr un cyflymder ar ôl dod i lawr llethr | 8.Graddiant | | Mae'r llwybr teithio yn cynnwys rhannau mwy serth na'r graddiannau sydd wedi'u hargymell yn Ffigur 4.4 | Nid oes rhannau ar y llwybr teithio lle mae graddiannau sy'n fwy serth na'r rheini sydd wedi'u hargymell yn Ffigur 4.4 | Nid oes rhannau ar y llwybr teithio sy'n fwy serth na graddiant o 2% | | | | |
| | Lleihau/dileu gwahaniaethau cyflymder lle mae beicwyr yn rhannu'r gerbytffordd | Lle mae beicwyr a cherbydau modur yn rhannu'r gerbytffordd, y ffordd allweddol i leihau difrifoldeb y gwrthdrawiadau yw lleihau cyflymderau cerbydau modur fel eu bod yn agosach i gyflymder beicwyr. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar bwyntiau lle mae mwy o risg o wrthdaro, fel cyffyrdd. | 9. Cyflymder traffig moduron wrth ddynesu a mynd drwy gyffyrdd lle mae beicwyr yn rhannu'r gerbytffordd drwy'r gyffordd. | Cyflymder 85 canradd > 37mya (60km yr awr) | Cyflymder 85 canradd >30mya | Cyflymder 85 canradd 20mya-30mya | Cyflymder 85 canradd <20mya | | | | |
| | | | 10.Cyflymder traffig moduron ar rannau o'r gerbytffordd a rennir | Cyflymder 85 canradd > 37mya (60 km yr awr) | Cyflymder 85 canradd >30mya | Cyflymder 85 canradd 20mya-30mya | Cyflymder 85 canradd <20mya | | | | |
| | Osgoi llifau mawr o draffig moduron lle mae beicwyr yn rhannu'r gerbytffordd | Ni ddylai fod yn ofynnol i feicwyr rannu'r gerbytffordd â llifau mawr o gerbydau modur. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar bwyntiau lle mae mwy o risg o wrthdaro, fel cyffyrdd. | 11. Llif traffig moduron ar rannau o'r gerbytffordd a rennir, wedi'i fynegi fel nifer y cerbydau yr awr ar yr awr brysuraf | >10000 o draffig dyddiol blynyddol cyfartalog, neu >5% o gerbydau nwyddau trwm | 5000-10000 o draffig dyddiol blynyddol cyfartalog a 2-5% o gerbydau nwyddau trwm | 2500-5000 o draffig dyddiol blynyddol cyfartalog a <2% o gerbydau nwyddau trwm | 0-2500 o draffig dyddiol blynyddol cyfartalog | | | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diogelwch | Risg gwrthdaro | Lle na ellir lleihau'r gwahaniaeth cyflymder a llifau mawr o gerbydau modur, dylid gwahanu beicwyr oddi wrth draffig – gweler Tabl 6.2. Gellir sicrhau gwahanu o'r fath i wahanol raddau drwy ddarparu lonydd beiciau ar y ffordd, llwybrau hybrid a darpariaeth oddi ar y ffordd. Dylai gwahanu o'r fath leihau'r risg o wrthdaro ag ochr neu gefn y beiciwr. | 12. Gwahanu i leihau'r risg o wrthdaro o'r ochr neu'r cefn | Beicwyr yn rhannu'r gerbytffordd - y lôn agosaf yn yr amrediad critigol rhwng 3.2m a 3.9m o led a'r llifau traffig yn atal cerbydau modur rhag symud yn rhwydd i'r lôn gyferbyn i basio beicwyr. | Beicwyr mewn lonydd draffig sydd heb gyfyngiad sydd y tu allan i'r amrediad critigol (rhwng 3.2m a 3.9m) neu mewn lonydd beiciau llai na 1.8m o led. | Beicwyr mewn lonydd beiciau sydd o leiaf 1.8m o led ar y gerbytffordd; cyflymder 85 canradd y traffig moduron yn 30mya ar y mwyaf. | Y beicwyr ar lwybr teithio oddi wrth draffig moduron (darpariaeth oddi ar y ffordd) neu ar lwybr beiciau oddi ar y gerbytffordd. Y beicwyr ar lwybr hybrid/â mesurau gwahanu ysgafn; cyflymder 85 canradd y traffig moduron yn 30mya ar y | | | | |
| | | Mae cyfran fawr o'r gwrthdrawiadau sy'n cynnwys beicwyr yn digwydd ar gyffyrdd. Felly mae angen rhoi sylw penodol i leihau'r risg o wrthdaro ar gyffyrdd. Mae'r dulliau o drin cyffyrdd yn cynnwys: Is-ffyrdd/ffyrdd ymyl - blaenoriaeth i feicwyr a/neu ostwng cyflymder ar draws ffyrdd ymyl. Prif ffyrdd - gwahanu beicwyr oddi wrth draffig moduron drwy gyffyrdd | 13. Symudiadau sy'n croestynnu wrth gyffyrdd | | Cyffyrdd mynych â ffyrdd ymyl a/neu gyffyrdd heb eu trin. Cyffyrdd mawr lle nad yw symudiadau croes rhwng beiciau a thraffig moduron yn cael eu gwahanu. | Cyffyrdd anfynych â ffyrdd ymyl a dulliau effeithiol o drin mynedfeydd. Cyffyrdd mawr lle mae'r prif symudiadau croes rhwng beiciau a thraffig moduron yn cael eu gwahanu. | Ffyrdd ymyl wedi'u cau neu eu trin i gydweddu â'r droetffordd. Cyffyrdd mawr lle mae'r holl lifau croes rhwng beiciau a thraffig moduron yn cael eu gwahanu. | | | | |
| | Osgoi dyluniadau cymhleth | Osgoi dyluniadau cymhleth sy'n gofyn i ddefnyddwyr brosesu llawer o wybodaeth. Dylai dyluniad y rhwydwaith fod yn glir a dealladwy i holl ddefnyddwyr y ffordd. Dylai pob defnyddiwr allu deall ble y mae ef a defnyddwyr eraill y ffordd i fod a pha symudiadau y gallent eu gwneud | 14. Marciau ffordd a threfn ffyrdd sy'n ddealladwy | | Marciau ffyrdd cymhleth sy'n hen, aneglur ac wedi colli eu lliw/trefn ffyrdd aneglur neu anghyfarwydd | Marciau ffordd a threfn ffyrdd sy'n ddealladwy ar y cyfan ond bod lle i wella rhai elfennau | Marciau ffordd a threfn ffyrdd sy'n syml, clir a dealladwy | | | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ystyried a lleihau risg o ganlyniad i weithgarwch wrth ochr y cwrb | Dylid asesu llwybrau teithio ar sail yr holl fathau o ddefnydd ar y stryd yn cynnwys mannau parcio ceir, safleoedd bysiau, parcio ceir, yn cynnwys gwrthdaro â drysau agored. | 15. Croestynnu â gweithgarwch ar ochr y cwrb | Lonydd beiciau cul <1.5m neu lai (yn cynnwys unrhyw lain glustogi) ochr yn ochr â pharcio/llwytho | Croestynnu sylweddol â gweithgarwch wrth ochr y cwrb (e.e. lôn feiciau agosaf o < 2m o led (yn cynnwys llain glustogi) ochr yn ochr â pharcio wrth ochr y cwrb) | Rhywfaint o groestynnu â gweithgarwch wrth ochr y cwrb - e.e. gweithgarwch llai aml ar yr ochr agosaf i feicwyr, lonydd beiciau 2m o led o leiaf yn cynnwys llain | Dim neu nemor ddim croestynnu â gweithgarwch wrth ochr y cwrb, neu led y lôn feiciau, yn cynnwys y llain glustogi, yn fwy na 3m. | | | | |
| | Lleihau difrifoldeb gwrthdrawiadau lle maent yn digwydd | Lle bynnag y bo modd, dylid sicrhau gofod ar gyfer gwyro (fel lleiniau ymyl y ffordd o dan laswellt) a pheidio â gosod unrhyw beryglon ffisegol diangen fel canllaw, rhwystrau ymwthiol etc. er mwyn lleihau difrifoldeb | 16. Gofod ar gyfer gwyro a pheryglon diangen | | Mae beicwyr mewn perygl o gael eu dal gan beryglon ffisegol ar hyd mwy na hanner y llwybr teithio. | Gellir lleihau nifer y peryglon ffisegol ymhellach. | Mae'r llwybr teithio yn cynnwys gofod gwyro ac nid oes unrhyw beryglon ffisegol. | | | | |
| Cysur | Ansawdd y wyneb | Dwysedd y diffygion, yn cynnwys gwaith haearn anaddas ar gyfer beicio, caeadau/gylïau wedi'u codi/suddo, tyllau yn y ffordd, paent o ansawdd gwael ar y gerbytffordd (e.e. ar ôl lôn feiciau flaenorol). | 17. Diffygion mawr a bach | | Nifer mawr o ddiffygion bach neu unrhyw nifer o ddiffygion mawr | Ambell ddiffyg bach | Wyneb llyfn sy'n gafael yn dda | | | | |
| | | Adeiladwaith y palmant neu gerbytffordd yn darparu wyneb llyfn a gwastad | 18. Math o wyneb | | Unrhyw wyneb sy'n anwastad, sydd heb ei lynu, sy'n llithrig ac a allai achosi peryglon. | Deunyddiau wedi'u gosod â llaw, fflacs concrid gyda llawer o uniadau. | Wyneb llyfn sy'n atal llithro a osodwyd gan beiriant - e.e. Arwyneb Tenau, neu flociau cadarn ag uniadau agos sydd heb eu symud gan gerbydau trwm wrth droi. | | | | |
| | Lled effeithiol heb groestynnu | Dylai beicwyr allu beicio'n gyfforddus heb risg o groestynnu â defnyddwyr eraill ar y ffordd ac oddi arni. | 19. Lledau dymunol lleiaf sy'n gyson â llif y beicwyr a'r math o lwybr teithio (lle mae beicwyr wedi'u gwahanu oddi wrth gerbydau modur). | | Mwy na 25% o'r llwybr teithio yn cynnwys darpariaeth ar gyfer beicio lle nad yw'r lledau'n fwy na 25% yn llai na'r gwerthoedd dymunol lleiaf. | Dim mwy na 25% o'r llwybr teithio yn cynnwys darpariaeth ar gyfer beicio lle nad yw'r lledau'n fwy na 25% yn llai na'r gwerthoedd dymunol lleiaf. | Y lledau sydd wedi'u hargymell ar hyd y llwybr teithio cyfan. | | | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Dangos y ffordd | Bod beicwyr o'r tu allan i'r ardal yn gallu mynd ar hyd y llwybrau teithio heb ddefnyddio mapiau. | 20. Arwyddion | | Mae arwyddion y llwybr teithio yn wael ac mae arwyddion ar goll ar bwyntiau penderfynu allweddol. | Bylchau wedi'u nodi rhwng arwyddion y llwybr teithio ac mae lle i wella hyn. | Mae arwyddion da ar y llwybr teithio ac mae arwyddion wedi'u gosod ar yr holl gyffyrdd a phwyntiau penderfynu. | | | | |
| Atyniad | Diogelwch cymdeithasol a chanfyddiad y defnyddiwr o fod yn agored i niwed | Dylai llwybrau teithio fod yn atyniadol a chael eu gweld yn ddiogel ac yn ddefnyddiadwy. Mae llwybrau aml eu defnydd sy'n cael eu cynnal a'u goleuo'n dda ac sydd o fewn golwg adeiladau yn fwy atyniadol ac felly'n fwy tebygol o gael eu defnyddio. | 21.Goleuadau | | Y cyfan neu'r rhan fwyaf o'r llwybr teithio heb ei oleuo | Rhannau byr ac anfynych heb eu goleuo/ wedi'u goleuo'n wael | Mae'r cyfan o'r llwybr teithio wedi'i oleuo at safonau priffyrdd | | | | |
| | | | 22.Arwahanu | | Mae'r llwybr teithio yn bell o weithgarwch gan mwyaf | Mae adeiladau'n edrych dros y rhan fwyaf o'r llwybr teithio ac nid yw'n bell o weithgarwch yn unman. | Mae adeiladau'n edrych dros y cyfan o'r llwybr teithio | | | | |
| | Effaith ar gerddwyr, yn cynnwys pobl ag anableddau | Drwy gyflwyno darpariaeth bwrpasol ar y ffordd ar gyfer beicio, gall pobl feicio ar y ffordd yn hytrach na defnyddio troetffyrdd sy'n anaddas i'w cyd-ddefnyddio. Byddai cyflwyno beicio ar lwybrau troed aml eu defnydd yn gallu lleihau ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y ddau fath o ddefnyddiwr, yn enwedig os nad yw'r llwybr cyd-ddefnyddio yn unol â'r lledau sydd wedi'u | 23. Yr effaith ar gerddwyr, Lefel Cysur y Cerddwr wedi'i seilio ar Pedestrian Comfort Guidance for London (Adran 4.7) | | Y llwybr teithio'n amharu ar y ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr, Lefel Cysur y Cerddwr ar lefel C neu'n is. | Dim effaith ar y ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr neu mae Lefel Cysur y Cerddwr yn aros ar lefel B neu'n uwch | Y ddarpariaeth ar gyfer beicio yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr, neu mae Lefel Cysur y Cerddwr yn aros ar lefel A | | | | |
| | Lleihau blerwch stryd | Mae angen arwyddion i egluro patrwm y cynllun | 24. Arwyddion sy'n gyson ac yn darparu gwybodaeth ond nid ydynt yn ormodol nac o faint amhriodol | | Mae angen nifer mawr o arwyddion, maent yn anodd eu dilyn a/neu yn creu blerwch. | Nifer cymedrol o arwyddion, yn enwedig o amgylch cyffyrdd. | Arwyddion i ddangos y ffordd yn unig ac nid ydynt yn achosi rhwystr ychwanegol. | | | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mannau diogel i barcio beiciau | Mynediad rhwydd at fannau diogel i barcio beiciau o fewn busnesau ac ar y stryd | 25. Tystiolaeth bod beiciau'n cael eu parcio wrth gelfi stryd neu ar standiau beiciau | | Dim mannau ychwanegol wedi'u darparu i barcio beiciau neu ddarpariaeth annigonol mewn mannau anniogel nad | Rhai mannau diogel wedi'u darparu ar gyfer parcio beiciau ond dim digon i ateb y galw. | Mannau diogel wedi'u darparu ar gyfer parcio beiciau, digon i ateb y galw | | | | |
| | **Cyfanswm y Sgôr Archwilio** | | | | | | | 0 | | | 0 |